# Cofnodion Cyfarfod 5/3/2026

**Presennol:** Cyng Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Huw Symonds, Eluned Jones, Ken Edwards, Rhys Evans, Sion McGuiness, Tomos Ffrancon a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dilys Evans, Moira Mai a Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Yn absenoldeb y Maer a'r Dirprwy faer fe gadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng Eifion Roberts.
2. **Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Huw Symonds, Rhys Evans ac Eluned Jones yn eitem 8.2 (ceisiadau ariannol).
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 5/2/26.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Seddi Gwag y Cyngor: Adroddwyd fod dwy sedd wag ar y cyngor, bod y cyfle i gyfethol wedi ei hysbysebu, a bod dau enw wedi dod i law, sef Ceri Dolben a Haydn Roberts. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i gyfethol y ddau yn aelodau o'r cyngor, a gofynnwyd i'r clerc wneud y trefniadau angenrheidiol.

    ii. Parc Cenedlaethol Eryri – Trefniadau Parcio Llyn Tegid: Nodwyd fod Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer 2026/2027, ac y bydd cyfle i drafod addasiadau i'r trefniant ymhen 12 mis.

    iii. Cynllun Gwynedd Ni: Adroddwyd fod y bocsys blodau ar gyfer y Stryd Fawr wedi cyrraedd, ac fe wnaed trefniadau i blannu blodau a phlanhigion etc. Cytunwyd i symud ymlaen i brynu pridd a graean etc, ac fe awgrymwyd y posibilrwydd o gael gwahanol grwpiau i fabwysiadau bocs blodau, gan ofalu am y gwaith dyfrio a chwynnu etc. Diolchwyd i Jacqui am ei gwaith.

    iv. Gwaith Celf y Bala: Adroddwyd fod cynrychiolaeth o'r cyngor wedi cyfarfod rheolwr Canolfan Byw'n Iach Penllyn i drafod adleoli'r gwaith celf i safle ger y ganolfan. Nodwyd hefyd fod briff wedi ei baratoi ar gyfer prisio'r gwaith, ac y bydd angen targedu cyllid i ariannu'r gwaith o adleoli'r gwaith celf. Nodwyd y bydd angen paentio'r gwaith celf, ac y bydd angen canfod safle addas ar gyfer y gwaith yma.

    v. Palmentydd y dref: Nodwyd na dderbyniwyd ymateb pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyflwr cyffredinol palmentydd y dref. Cytunwyd i gysylltu eto i geisio trefnu cyfarfod.

vi. Hyfforddiant i aelodau'r cyngor: Cytunwyd i ariannu sesiynau hyfforddiant i aelodau newydd y cyngor, ac i wneud hyn o fewn y gyllideb a osodwyd.

vii. Tomen y Bala a Llochesi Bws: Nodwyd fod tymor cytundebau cynnal a chadw'r Domen a'r llochesi yn dod i ben fis Mawrth. Cytunwyd i hysbysebu'r cytundebau newydd am gyfnod o 3 blynedd

viii. Clwb Rygbi'r Bala: Cytunwyd i roi llythyr o gefnogaeth i fwriad y Clwb Rygbi i gynnal rhaglen o hyfforddiant i'w aelodau iau.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd y Cyng Dilwyn Morgan yn bresennol yn y cyfarfod.

**6. Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Asedau:** Nodwyd fod y grŵp yn gweithio ar y prosiectau Gwynedd Ni a Gwaith Celf y Bala.
**Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar:** Adroddwyd fod Pecyn Gwybodaeth ar gael fyddai'n rhoi arweiniad ar sut i gyrraedd statws Tref Gyfeillgar i'r Bala.
**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod y grŵp yn gweithio ar y cynllun i blannu blodau yn y dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y gwaith o adnewyddu Canolfan Bro Tegid wedi ei gwblhau, a bod galw mawr am y Gwasanaeth Trafnidiaeth Cymunedol. Nodwyd fod angen mwy o wirfoddolwyr i yrru'r cerbyd ac i ofalu am y defnyddwyr.

7. **Materion Cynllunio**:
Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*8.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £3,819 yn y cyfri cyfredol, £30,369 yn y cyfri cadw a £393 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Chwefror.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfonebau Cwmni Pum Plwy Penllyn am hysbysebion yn y Cyfnod ac am gynnal llwybrau cyhoeddus yn 2025, anfoneb Clwb Pêl-droed y Bala am hysbyseb ar y cae, ac anfoneb Hill & Roberts am wasanaeth PAYE y cyngor.

**iii.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau am gymorth ariannol am 2025/2026, ac fe gytunwyd i gyfrannu fel â ganlyn:

a) Canolfan Bro Tegid: £500
b) Urdd Rhanbarth Meirionnydd: £200
c) CFFI Meirionnydd: £300
d) Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: £500
e) Cantref: £200
f) Parc Chwarae Heol y Castell: £200

g) Theatr Bara Caws: £100
h) Ambiwlans Awyr Cymru: £100
i) Cronfa Cyfle i Bawb Urdd Gobaith Cymru: £100
j) Llen y Llannau: £100
k) Theatr Derek Williams: £500 (cytunwyd i gael sgwrs bellach am anghenion y theatr)
l) Y Cyfnod: £200
m) Teulu'r Berwyn: £350

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd – Cyfyngiad 30m yr awr: Derbyniwyd gwybodaeth am y bwriad i addasu'r cyfyngiad cyflymder mewn rhai ardaloedd o'r dref. Cytunwyd fod angen arwydd 20m yr awr ger mynedfa i'r Hafan, Ffordd y Gerddi a'r Parciau.

ii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd rhybuddion y bydd Heol Tegid, Heol y Plase a Heol Arenig yn cau dros dro ar wahanol gyfnodau er mwyn cwblhau gwaith hanfodol.

iii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd traffig yn cael ei wahardd ar Heol Tegid, Heol y Plase a Heol y Domen dros dro.

iv) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth fod Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned yn ail agor erbyn yr haf, a bod cyllid ar gael i gynorthwyo prosiectau'r cyngor.

v) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y Tim Tacluso Ardal Ni yn y dref ar W/C 9.3.26.

vi) Cyngor Gwynedd – Toiledau'r Grin a'r Plase: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y toiledau yn cael eu paentio'n fuan, a'r toiledau ar gau yn ystod y gwaith yma.

vii) Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Lleol: Derbyniwyd gwybodaeth fod y Parc Cenedlaethol yn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, ac yn gwneud galwad agored am safleoedd datblygu addas. Cytunwyd i ail drafod y mater yma yn y cyfarfod nesaf o'r cyngor.

viii) Parc Cenedlaethol Eryri – Cronfa Ffyniant Cymunedau: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y gronfa yn ail agor yn fuan.

ix) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Trefniadau Cynnal Llwybrau Cyhoeddus: Cafwyd trafodaeth am drefniadau cynnal llwybrau cyhoeddus am 2026, ac fe nodwyd fod y trefniadau yn addas fel y maent.

x) Ysgol Godre'r Berwyn – Clirio llwybr i fyny at y Clwb Golff: Derbyniwyd cais gan Ysgol Godre'r Berwyn am gydsyniad i glirio a chasglu sbwriel ar y llwybr. Cytunwyd gyda'r cais, gan ofyn i'r ysgol ofalu am drefniadau diogelu plant ac iechyd a diogelwch.

xi) Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg: Cytunwyd i anfon neges at yr Arolwg Ordans i wneud cais iddynt ddefnyddio enwau cynhenid Cymraeg ar eu cyhoeddiadau.

xii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i'r cyngor ail ymuno â'r gymdeithas am 2026/2027. Cytunwyd i ymaelodi fel arfer.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Cafwyd trafodaeth ar ddefnydd y cyngor o gyfryngau cymdeithasol. Cytunwyd fod modd rhannu perchenogaeth a gwybodaeth am ddigwyddiadau'r dref ar y cyfryngau, a bod angen creu cynnwys newydd a bod yn fwy gweladwy arnynt.
    Adroddwyd fod y Cyng Eluned Jones a'r Clerc wedi cyfarfod ag Anne Deakin o Brifysgol Caerloyw ar effeithiau cymdeithasol-economaidd ar gymunedau gwledig o'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio, a bod y drafodaeth wedi bod yn ddiddorol ac adeiladol.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 2 Ebrill 2026.



ARWYDDWYD.....................................................(MAER) / / ....................................(CLERC)